Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS,

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

21 Ionawr 2021

Annwyl Simon

**Confensiwn Sewel**

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal ymchwiliad i'r Newid yng Nghyfansoddiad Cymru. Wrth inni ddod â'n hymchwiliad i ben, hoffem ystyried cymhwyso Confensiwn Sewel i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ("y Bil").

Fe ysgrifennon ni atoch chi ar 18 Medi 2020 yn gofyn a fyddai Llywodraeth y DU yn ceisio pasio'r Bil heb gydsyniad y Senedd. Byddwch yn ymwybodol y gofynnwyd y cwestiwn hwn yng nghyd-destun y dystiolaeth a roesoch i'r Pwyllgor ar 9 Mawrth 2020 mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), pan ddywedasoch yn yr achos penodol hwn, fod 'ddim yn normal' wedi dod i'r amlwg fel thema wrth iddi ddod yn fwy amlwg na fyddai'r LCM yn mynd drwy'r Senedd.

Fe wnaethoch chi ymateb ar 3 Hydref 2020 gan nodi bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r confensiwn ar gydsyniad deddfwriaethol. Dywedasoch hefyd fod nodiadau esboniadol y Bil yn nodi'n glir eich bod yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â phob rhan o'r Bil a bod gweinidogion llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y Bil wedi ysgrifennu cyn cyflwyno'r Bil i nodi'r sefyllfa yn fanwl.

Cyn i'r Bil ddod yn Ddeddf, gwnaeth Gweinidog Llundain ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Paul Scully AS ddatganiad ar 17 Rhagfyr 2020. Dywedodd y canlynol:

> The Sewel Convention envisages situations where the UK Parliament may need to legislate for the whole country […] The exceptional circumstances of our departure from the EU, and the need to provide a UK-wide legal underpinning for the internal market, is clearly one such situation.

Rydym yn rhannu barn Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd, a fynegodd yn ei adroddiad Bil Marchnad Fewnol y DU Cydsyniad Deddfwriaethol, fod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â marchnad fewnol y DU yn sylfaenol wahanol i amgylchiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Ni ddylai'r Bil, yn ein barn ni, fod wedi cynnwys agwedd "ddim yn normal" Confensiwn Sewel ac fe ddylai Llywodraeth y DU fod wedi parchu bod y Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad. Mae ein safbwynt ni, sef mai Bil ledled y DU fel y'i drafftiwyd oedd y cam gweithredu yr oedd Llywodraeth y DU yn ei ffafrio, ac nad oedd yn ofynnol, yn cael ei ategu gan gydnabyddiaeth Llywodraeth y DU ei hun yn **Hysbysiad y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Hydref 2017** y gallai marchnad fewnol y DU gael ei darparu trwy fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Mae hyn yn rhywbeth y gwnaethom dynnu sylw ato yn ein hadroddiad **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.**

Roedd ein hadroddiad yn nodi hefyd, ar yr un pryd ag yr oedd pedair llywodraeth y DU yn cydweithredu ar fframweithiau cyffredin, fod Llywodraeth Cymru (ynghyd â llywodraethau datganoledig eraill) wedi'u heithrio rhag cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno i Senedd y DU. Roeddem yn synnu felly o weld Llywodraeth y DU yn dweud yn y datganiad, ei bod, ar bob cam, wedi dilyn ysbryd a llythyren y setliad datganoli ac wedi gweithio'n galed i sicrhau cydsyniad deddfwriaethol. Rydym o'r farn bod cydweithredu ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno Bil cyfansoddiadol sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn rhan hanfodol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Byddai dull o'r fath yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU ei hun yn y **Devolution Guidance Note: Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales.**

Yng ngoleuni ein harsylwadau, byddem yn ddiolchgar am eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Pam na wnaeth Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r Bil cyn ei gyflwyno?

2. Mae eich ymateb ar 3 Hydref 2020 yn cyfeirio at y Nodiadau Esboniadol i'r Bil (fel y'u cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin), sy'n nodi:

   *87 There is a convention that the UK Government will not normally legislate with regard to matters that affect or are within the legislative competence of the Scottish Parliament, the National Assembly for Wales or the Northern Ireland Assembly without the consent of the legislature concerned.*

   *88 The Government has therefore sought legislative consent for the clauses contained in this Bill.*

   Os nad oedd amgylchiadau'r Bil "yn normal", gan olygu nad oedd Confensiwn Sewel yn berthnasol, pam bod Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad yn y lle cyntaf?

3. Pryd y penderfynodd Llywodraeth y DU nad oedd amgylchiadau'r Bil "yn normal" at ddibenion Confensiwn Sewel?

4. A wnaeth Llywodraeth y DU ei phenderfyniad terfynol ar ôl i'r Senedd wrthod cydsyniad?

5. Beth, os unrhyw beth, a wnaethoch yn wahanol wrth geisio cydsyniad ar gyfer y Bil o'i gymharu â'r broses a ddilynwyd gennych ar gyfer Bil yr UE (Cytundeb Ymadael), y gwrthododd y Senedd roi cydsyniad ar ei gyfer hefyd?

6. Pa rôl y mae Llywodraeth y DU yn ystyried y dylai Senedd y DU ei chwarae yng Nghonfensiwn Sewel mewn perthynas â phob Bil y DU y gofynnir am gydsyniad ar ei gyfer gan y Senedd Cymru?

7. Sut y gellid gwella'r prosesau sy'n ymwneud â Chonfensiwn Sewel fel ei fod yn gweithredu'n glir ac yn fwy effeithiol?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn 17 Chwefror 2021.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

copi:
Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Paul Scully AS, Gweinidog Llundain ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog Busnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur)
David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Senedd Cymru
Bruce Crawford ASA, Cynullydd, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban
Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon
Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Pwyllgor Materion Cymru, Tŷ'r Cyffredin
William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin
Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Taylor o Bolton, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi